CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2022 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol ar gyfer Cyfeiriad Strategol a Thrawsnewid; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Gwyneth Ellis, Hugh Irving, Alan James, Barry Mellor, Arwel Roberts, ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW); Prif Gyfrifydd (RE); Prif Reolwr Arlwyo a Glanhau (HJ); Rheolwr Prosiect (RV); Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai (DL); Rheolwr Datblygu Tai (MD); Cydlynydd Craffu (RE); Cydlynydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ ac RTJ [Gweddarlledwr])

PWYNT SYLW

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod hybrid cyhoeddus cyntaf y Cabinet.

Esboniodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd bod Siambr y Cyngor wedi derbyn cyfarpar i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid, er mwyn galluogi i gyfranogwyr ddod i'r cyfarfod yn bersonol yn Siambr y Cyngor neu o bell dros Zoom. Er eglurder, darparwyd manylion o'r sawl oedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022.

Materion yn Codi – Eitem 7 – Cynllun Dirprwyo Gwneud Penderfyniadau Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir a Dal a Storio Carbon, ac at Ddibenion Gwelliant Ecolegol - Cynghorodd y Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd bod penderfyniad y Cabinet wedi cael ei alw i mewn i'w graffu, ac wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau'r wythnos flaenorol, a oedd wedi penderfynu cyfeirio'r mater yn ôl at ystyriaeth y Cabinet. O ganlyniad, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet yn y dyfodol i ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU - CAEL GWARED AR NWYDDAU NA ELLIR EU HAILGYLCHU YNG NGWASANAETHAU ARLWYO YSGOLION

Ar wahoddiad yr Arweinydd, cyflwynodd y Cynghorydd Arwel Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad, yn argymell bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol ddigonol i awdurdodau lleol i'w helpu i ddileu defnyddio nwyddau nad oes modd eu hailgylchu, a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion, heb gyfaddawdu ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth prydau ysgol hyfyw a chynaliadwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts ar y gwaith a wnaed, gyda bwriad i ddileu defnydd nwyddau nad oes modd eu hailgylchu yn y gwasanaeth i gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Adroddodd ar drafodaeth fanwl y Pwyllgor mewn perthynas â'r pwnc a chyfraniadau gwerthfawr i'r drafodaeth gan ddau ddisgybl oedd yn cynrychioli Ysgol Dinas Brân. Tynnwyd sylw'r Cabinet at y pwysau ariannol sylweddol oedd yn wynebu'r gwasanaeth, a'i ddibyniaeth ar incwm o werthu diodydd mewn poteli plastig i ddarparu prydau maethlon a chost effeithiol i ddisgyblion, ynghyd â phwysau ychwanegol i ddod i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, a oedd yn cymhlethu materion ymhellach. Diolchwyd i Ysgol Glan Clwyd am gynnal cyfnod prawf diodydd yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem a oedd yn amlygu'r costau sy'n gysylltiedig â'r dull hwnnw a'r heriau cysylltiedig. Roedd yn glir bod pwysau ariannol a staffio ar y gwasanaeth, cyfyngiadau amser i weini prydau, dim digon o le yn y ffreutur a'r angen i addysgu disgyblion i ddychwelyd eu cytleri yn ei gwneud yn anodd ar hyn o bryd i leihau'r ddibyniaeth ar ddeunyddiau nad oes modd eu hailgylchu ac ôl troed carbon y gwasanaeth, wrth baratoi prydau ysgol maethlon ond fforddiadwy. Mae ymrwymiad y gwasanaeth i leihau ei ôl troed carbon a defnyddio deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu wedi cael eu nodi, yn ogystal â'r angen i ddatblygu gwasanaeth hyfyw. O ganlyniad, teimlwyd y dylid mynd at Lywodraeth Cymru i geisio ei chefnogaeth ar gyfer awdurdodau'n genedlaethol i gyflawni'r nodau hynny. Gofynnwyd i'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i leihau a dileu ei ddefnydd o blastigion untro neu gynnyrch nad oes modd ei hailgylchu yn y gwasanaeth a darparu adnoddau

ariannol digonol at y dibenion hynny, a hwyluso mesurau lleihau carbon gan ddarparu gwasanaeth cynaliadwy.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Roberts am yr adroddiad a gwaith y Pwyllgor Craffu, ac roedd yn falch o nodi cyfranogiad pobl ifanc fel rhan o'r broses honno i sicrhau fod ganddynt lais yn y materion sy'n effeithio ar eu dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts i'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith, ac roedd yn cefnogi'r argymhellion yn llwyr, o wybod y gefnogaeth ariannol sydd ei angen i gyflawni nodau mewn perthynas â lleihau defnydd a dibyniaeth ar blastigion untro. Fe ymhelaethodd ar y cyfnod prawf diodydd yn Ysgol Glan Clwyd, a'r heriau a wynebir ynghyd, o ran yr effaith ariannol sylweddol: tua £220,000 y flwyddyn ar gyfer stopio gwerthu diodydd mewn ysgolion uwchradd a £200,000 y flwyddyn ar gyfer gwerthu/tywallt diodydd i gwpanau y gellir eu hailddefnyddio. Roedd problemau hefyd o ran cwpanau y gellir eu hailddefnyddio ddim yn cael eu dychwelyd. Er bod y gwasanaeth wedi ymrwymo i leihau ei ddefnydd o blastigion, roedd anawsterau o ran y costau ariannol sy'n gysylltiedig gyda'r nod hwnnw, a'r model presennol ar gyfer arlwyo mewn ysgolion. Roedd ehangu'r gwasanaeth i ddarparu prydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion cynradd yn codi heriau ychwanegol hefyd, yn nhermau ei ddarpariaeth a'i effaith ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad ac roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol -

- Cydnabu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr anawsterau sy'n wynebu'r gwasanaeth wrth geisio bodloni uchelgeisiau amgylcheddol ac roedd yn llwyr gefnogi'r argymhelliad i ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru o ran hynny. O wybod bod hyn yn fater cenedlaethol ac i gryfhau safle'r Cyngor ymhellach, fe gynhigiodd argymhelliad ychwanegol i geisio cefnogaeth hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu'r mesurau hynny. Mynegodd y Cynghorwyr Huw Hilditich-Roberts ac Arwel Roberts eu cefnogaeth o'r cynnig er mwyn cyflwyno safle cyfunol ac unedig ar y mater.
- Amlygodd y Cynghorydd Brian Jones, yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu, bod y ddau ddisgybl o Ysgol Dinas Brân wedi siomi nad oedd mwy y gellir ei wneud ar y cam hwn er mynd i'r afael â'r mater, ac roedd yn hyrwyddo gweithio ar y cyd a gohebiaeth reolaidd gydag ysgolion a phobl ifanc i ganfod datrysiadau arloesol er mwyn symud y rhaglen newid hinsawdd ymlaen.
- Nododd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol y siom a'r rhwystredigaeth nad oedd datrysiad cyflym yn bosib yn yr achos hwn, o wybod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig, a phwysleisiodd ymrwymiad ac ymdrechion y gwasanaeth i'r perwyl hwnnw. Yn sgil y gofynion newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim, roedd angen i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar gyflawni'r gwaith hwnnw dros y deuddeg mis nesaf, ac er y gallai gymryd hirach i gyflawni nodau'r gwasanaeth o leihau carbon a phlastigion untro, roedd pawb wedi ymrwymo i ddatrys y mater.
- Gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley a fyddai budd mewn cysylltu'r gofyniad am ddarpariaeth prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd gyda'r nodau o ddileu plastigion untro yn y gwasanaeth, a'u hadolygu ar y cyd. Cynghorodd swyddogion bod y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn fater mewn ysgolion

cynradd, a bod y mater o ran plastigion untro yn bennaf yn fater mewn ysgolion uwchradd, gan ei fod yn ymwneud â gwerthu diodydd mewn poteli plastig, ac o ganlyniad i hynny, roeddent yn faterion ar wahân.

- Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mark Young, tynnwyd sylw at y cynnydd da a waned o ran lleihau plastig mewn meysydd gwahanol o'r gwasanaeth, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ond oedd yr elfen benodol hon sy'n ymwneud â gwerthu diodydd mewn ysgolion uwchradd wedi profi'n heriol am y rhesymau a amlinellwyd; nid oedd digon o gyllid yn y gyllideb gyfredol i dalu am yr elfen hon, ac o ganlyniad, byddai cost o ddarparu'r newid angen cael ei ddiwallu gan gynnydd i gost prydau ysgol neu basio'r costau ymlaen i ysgolion. Nodwyd nad oedd Ysgol Glan Clwyd yn dymuno dychwelyd i werthu diodydd mewn cynwysyddion plastig a fyddai'n gadael diffyg ariannol y byddai'n rhaid ei fodloni; roedd yn aneglur hefyd a fyddai cyflwyno prydau ysgol am ddim yn creu pwysau ariannol.

Estynnodd yr Arweinydd wahoddiad i gwestiynau gan Aelodau nad oeddent yn y Cabinet, ond o wybod y nifer o gwestiynau a godwyd ynghylch materion ehangach, a fyddai wedi bod yn well wrth graffu ar yr eitem i ddechrau, gofynnodd i gyfyngu'r cwestiynau i argymhellion y Pwyllgor Craffu, fel y manylwyd yn yr adroddiad er mwyn datblygu'r broblem. Nododd swyddogion argymhellion yr aelodau ac ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd -

- cadarnhawyd nad oedd y mwyafrif o gwpanau y gellir eu hailddefnyddio a ddarparwyd i hwyluso'r cyfnod prawf diodydd wedi cael eu dychwelyd, ac wedi'u canfod mewn amryw leoliad, rhai wedi cael eu torri, ac ystyriwyd bod llawer wedi cael eu cymryd gan y disgyblion; roedd staff yn edrych am y cwpanau o amgylch yr ysgol yn rheolaidd i'w dychwelyd i'r ffreutur.
- nid oedd Ysgol Glan Clwyd yn dymuno dychwelyd i werthu diodydd mewn cynwysyddion plastig, ond i wneud y cyfnod prawf yn nodwedd barhaol, byddai angen £20,000 ychwanegol ar yr ysgol bob blwyddyn, ac ni fyddai hyn yn gallu cael ei ddiwallu gan y gwasanaeth; er y byddai deialog reolaidd yn parhau gyda'r ysgol, byddai angen iddynt ganolbwyntio ar sut i ddiwallu'r diffyg cyllid wrth symud ymlaen.
- esboniwyd yr angen i gydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru ar faetheg a bwyd mewn ysgolion, a oedd yn golygu gwerthu dŵr, diodydd ffrwythau a llaeth, heb swigod i'w gwerthu gan y gwasanaeth mewn ysgolion.
- o ran yr awgrymiad i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i newid y ddeddfwriaeth genedlaethol a gwahardd cynhyrchu plastigion untro, roedd yr Arweinydd yn teimlo, o wybod argymhellion Craffu a chymhlethdodau'r materion yn lleol, y dylid ceisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru a CLlLC i ddechrau.

Amlygodd y Cynghorydd Emrys Wynne yr angen i barhau gyda'r gwaith yn y gwasanaeth arlwyo ysgolion a cheisio cyflawni nod y Cyngor o leihau plastigion untro, a darparodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts sicrwydd mai uchelgais y gwasanaeth oedd bod yn ddi-blastig a lleihau carbon lle bo'n bosib, gydag awydd gan y gwasanaeth ac ysgolion o ran hynny. Esboniodd, oherwydd y costau ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygu'r elfen sy'n ymwneud â gwerthu diodydd mewn cynwysyddion untro, nid oedd yn bosibl gwneud hyn ar hyn o bryd, ac o ganlyniad bu argymhelliad i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwnnw a hwyluso'r mesurau lleihau carbon.

Ar ôl ystyried adroddiad y Pwyllgor Craffu a'r argymhellion, yn ogystal â'r argymhelliad ychwanegol a gynhigiwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill -

PENDERFYNWYD *Bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt -*

(a) weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymgais i leihau a dileu'r arfer o ddefnyddio plastigion untro a deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu wrth gyflenwi, paratoi a gweini prydau ysgol;

(b) darparu adnoddau ariannol digonol i bob awdurdod lleol i'w galluogi i wireddu'r amcanion uchod, a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion, gan sicrhau darpariaeth gwasanaeth prydau ysgol cynaliadwy, a

(c) bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ceisio eu cefnogaeth i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r mesurau a nodwyd yn (a) a (b) uchod.

6 ADEILADAU'R FRENHINES CAM 1 – DYFARNU CONTRACT ADEILADU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y cyd gyda'r Arweinydd ar Brosiect Adeiladau'r Frenhines yn Rhyl, ac ail gam y broses i ddyfarnu contract ar gyfer adeiladu datblygiad Adeiladau'r Frenhines, a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract trwy benderfyniad dirprwyol.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Achos Busnes diwygiedig a chyllid ychwanegol yn y cyfarfod diwethaf, pwrpas yr adroddiad cyfredol oedd canolbwyntio ar osod contract adeiladu cam 1. Cafodd Wynne Construction ei benodi yng ngham cyntaf y gwaith, i weithio ar y cynllun drwy ganiatâd cynllunio a dyluniad manwl yn barod i'r gwaith adeiladu ddechrau canol/diwedd mis Ebrill. Defnyddiwyd Lot 3 Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru ar gyfer cam 1 yr elfen adeiladu. O wybod y terfynau amser tynn ar gyfer darparu'r prosiect, a gosod y contract, a oedd yn disgyn tu allan i amserlen cyfarfodydd y Cabinet yn sgil etholiadau mis Mai, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract drwy benderfyniad dirprwyol. Yn ychwanegol at hynny, nes bod contract ffurfiol ar waith, byddai angen i'r Cyngor warantu costau o tua £500,000 ar gyfer archebion yn ymwneud ag eitemau adeiladu a oedd yn cynnwys amser archebu hir.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn -*

(a) dirprwyo awdurdod i ddyfarnu Contract ar gyfer gwaith adeiladu Cam 1 datblygiad Adeiladau'r Frenhines i'r Contractwr dewisol i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Aelodau Arweiniol perthnasol ar ddiwedd y cam dylunio manwl, os yw'r cynllun wedi'i gostio o fewn amlen fforddiadwyedd ar gyfer y gwaith;

(b) cymeradwyo gweithrediad uniongyrchol y Penderfyniad Dirprwyol oherwydd bod brys i ddyfarnu Contract i ganiatáu i'r gwaith gychwyn ar y safle cyn gynted â phosib i ddiwallu terfynau amser cyllid grant, a

(c) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

7 DYFARNU CONTRACT – ADNEWYDDU TAI TERAS YN 2 – 16 AQUARIUM STREET Y RHYL.

[Cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd i atodiad cyfrinachol i'r adroddiad oherwydd rhesymau sensitifrwydd masnachol, a chynghorodd y dylid cyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r elfen mewn sesiwn breifat.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i benodi Prif Gontractwr i adnewyddu'r tai teras yn 2 - 16 Aquarium Street, y Rhyl.

Cynghorodd y Cynghorydd Thomas y byddai'r cynllun yn darparu un o elfennau rhaglen adnewyddu tai Gorllewin y Rhyl, a rhoddodd ganmoliaeth i'r gwaith gwych a wnaed o ran hynny, a buddion y cynllun ar gyfer preswylwyr yn yr ardal. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynllun cyfalaf tai ar Aquarium Street, y Rhyl ym mis Mawrth 2019, ac roedd yr adroddiad yn crynhoi'r broses a wnaed yn ystod yr ymarfer caffael, a arweiniodd at bedwar cais am dendr. Yn dilyn ymarfer gwerthuso gan ddefnyddio methodoleg sgorio gyda phwysoliad o 70% ar gyfer y pris a 30% ar gyfer ansawdd, dewiswyd contractwr ac fe'i hargymhellwyd i'r Cabinet. Amcangyfrif o gost y contract oedd rhwng £2,148,143.80 a chyfanswm y gost a amcangyfrifwyd gan y tendr a argymellwyd oedd £2,641,828.05 a oedd o fewn y gyllideb ar gyfer y prosiect yng Nghynllun Busnes y Stoc Dai.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i'r cynnydd yng ngwerth y contract a amcangyfrifwyd, gan amlygu cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu sydd wedi cael ei nodi, a thu allan i reolaeth y Cyngor. Serch hynny, roedd y cynllun wedi'i ariannu'n llawn, ac roedd yn cefnogi'r argymhelliad i gymeradwyo'r dyfarniad contract. Ychwanegodd y Rheolwr Datblygu Tai y byddai'r cynllun yn darparu tai fforddiadwy gyda galw mawr amdanynt ar gyfer pobl leol, gan ddatblygu safle sy'n hyll ar hyn o bryd. Mewn ymateb i gwestiynau, fe gadarnhaodd y byddai'r estyniadau cefn yn cael eu tynnu; roedd y contractwr dewisol wedi'i leoli'n Sir Ddinbych ac eisoes wedi gwneud gwaith i'r Cyngor a phartneriaid eraill yn y gorffennol, ac roedd pris y tendr yn ddilys am rhai misoedd ar ôl y dyddiad cau. Ychwanegodd y Cynghorydd Alan James ei gefnogaeth o ran y cynllun, ac roedd yn edrych ymlaen at ei weld yn cael ei gwblhau, gan ddiolch i bawb oedd yn rhan ohono.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn -*

(a) cymeradwyo dyfarniad contract i Anthony Dever Limited Construction yn unol â'r Adroddiad Argymell Dyfarnu Contract (Atodiad 1 yr Adroddiad), a

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

8 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd blaenraglen waith y Cabinet i'w ystyried.

Cynghorodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd bod, er nad oedd disgwyl cynnal cyfarfod y Cabinet ym mis Ebrill, roedd rhai eitemau o oedd angen mynd i'r afael â nhw cyn etholiadau Mai, ac o ganlyniad roedd swyddogion yn gweithio gydag aelodau i gadarnhau dyddiad ar gyfer cyfarfod ym mis Ebrill, gan ystyried y byddai cyfarfod nesaf y Cabinet yn y Cyngor newydd ar 7 Mehefin.

PENDERFYNWYD *nodi blaenraglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.